# Disgrifiad Swydd - Clerc Pleidleisio

## Tîm yr Orsaf Bleidleisio

Mae Gorsafoedd Pleidleisio ar agor rhwng 7.00am a 10.00pm. Ar Ddiwrnod yr Etholiad mae angen i'r staff gyrraedd yr Orsaf Bleidleisio am 6:15am i osod yr offer. Ni chaniateir i'r staff adael y safle yn ystod yr oriau pleidleisio er mwyn sicrhau bod y bleidlais yn gyfrinachol.

Rôl staff yr orsaf bleidleisio yw sicrhau bod pleidleiswyr yn gallu bwrw eu pleidlais yn gyfrinachol, heb ddylanwad ac mewn awyrgylch digynnwrf.

**Y Clerc Pleidleisio**
Mae Clercod Pleidleisio yn cynorthwyo'r Swyddog Llywyddu o ran cynnal y bleidlais yn y gorsafoedd pleidleisio.

**Y Rôl:**
Cynorthwyo'r Swyddog Llywyddu o ran y canlynol:

● Cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan y Swyddog Canlyniadau.
● Sicrhau bod yr holl etholwyr yn cael eu trin yn ddiduedd ac â pharch.
● Sicrhau bod y bleidlais yn gyfrinachol.

**Y dyletswyddau:**

<u>Cyn Diwrnod yr Etholiad:</u>

● Bod yn bresennol mewn sesiwn hyfforddi gorfodol – **mae hyn yn rhan o amodau eich cyflogaeth ac os nad ydych yn cyflawni dyletswyddau Clerc Pleidleisio ar y diwrnod ni fyddwch yn derbyn y ffi hyfforddiant.**

<u>Diwrnod yr Etholiad</u>
Cynorthwyo'r Swyddog Llywyddu o ran y canlynol:
● Gosod bythau pleidleisio. Mae hyn yn cynnwys rhywfaint o waith codi – mae'n rhaid ichi fod yn weddol heini a'ch bod yn gallu trafod eitemau trwm megis offer a defnyddiau swyddfa
● Paratoi'r orsaf bleidleisio ar gyfer agor y bleidlais
● Cadw'r orsaf bleidleisio'n daclus ac yn lân.
● Gofynnwch am brawf adnabod pleidleiswyr a'i wirio cyn cyflwyno papurau pleidleisio (Etholiadau Seneddol ac Etholiadau'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn unig)
● Sicrhewch fod etholwyr yn deall y gofynion newydd o ran prawf adnabod pleidleiswyr gan gynnwys yr hyn sy'n dderbyniol fel prawf adnabod (Etholiadau Seneddol ac Etholiadau'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn unig)
●Sicrhewch fod etholwyr yn gallu cyflwyno eu prawf adnabod yn breifat os gofynnir am hynny (Etholiadau Seneddol ac Etholiadau'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn unig)
●Cefnogwch bleidleiswyr anabl i ddefnyddio unrhyw offer neu ddyfeisiau arbennig
● Cadarnhau a marcio rhifau etholiadol etholwyr yn y gofrestr etholwyr ac ar y rhestri rhifau cyfatebol.
● Rhoi papurau pleidleisio i bleidleiswyr.
● Sicrhau bod pobl yn bwrw eu pleidlais yn gyfrinachol a'u bod yn rhoi eu papurau pleidleisio yn y blwch pleidleisio (cywir).
● Unrhyw ddyletswyddau eraill o ran yr orsaf bleidleisio yn unol â chyfarwyddiadau'r Swyddog Llywyddu.

Cau'r Bleidlais

● Helpu i ddadosod dodrefn yr orsaf bleidleisio a sicrhau bod yr adeilad yn cael ei adael yn ei gyflwr gwreiddiol.

Byddwch yn gweithio diwrnod 16 awr felly mae'n rhaid ichi ddarparu eich lluniaeth eich hun.

Dylech gael egwyliau priodol drwy gydol y dydd i osgoi blinder.
Dylech wisgo dillad priodol ar gyfer eistedd i lawr am y rhan fwyaf o'r dydd, yn enwedig mewn tywydd oer.

**Manyleb Person -**
**Clerc Pleidleisio**

| **PROFIAD** | |
|---|---|
| **Hanfodol** | **Dymunol** |
| Dim | Dealltwriaeth sylfaenol o'r broses etholiadol<br><br>Profiad blaenorol o etholiad |

| **SGILIAU/NODWEDDION PERSONOL** | |
|---|---|
| **Hanfodol** | **Dymunol** |
| Sgiliau cyfathrebu da<br><br>Unigolyn trwsiadus<br><br>Ymrwymiad i ofal cwsmeriaid<br><br>Sgiliau gweinyddol da gan roi sylw i fanylion<br><br>Gweithio'n dda mewn tîm a meddu ar ymagwedd hyblyg<br><br>Prydlon a dibynadwy | Gallu codi bythau/blychau pleidleisio ac ati |

| **ARALL** | |
|---|---|
| **Hanfodol** | **Dymunol** |
| Mae'n hanfodol nad ydych wedi gweithio i gefnogi ymgeisydd/plaid wleidyddol yn yr etholiad, p'un a ydych wedi cael eich talu neu beidio<br><br>Bod yn fodlon mynd i sesiwn hyfforddi yn ôl yr angen | Trafnidiaeth |

| | |
|---|---|
| Mae'n hanfodol nad ydych wedi cael eich dyfarnu'n euog o drosedd o dan Ddeddfwriaeth Etholiadol<br><br>Derbyn y bydd y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith yn cael ei rhoi o'r neilltu am gyfnod y gyflogaeth | |